
CB SEIC

COLEG BRENHINOL Y SEICIATRYDDION

# Etholiad y Senedd 2026: Maniffesto ar gyfer Dyfodol Gofal Iechyd Meddwl yng Nghymru





CB SEIC

COLEG BRENHINOL Y SEICIATRYDDION

# Cyflwyniad

Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru (CBSeic Cymru) yw'r corff meddygol proffesiynol sy'n gyfrifol am gefnogi seiciatryddion. Rydym yn gweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl â salwch meddwl, anableddau deallusol ac anhwylderau datblygiadol trwy hyrwyddo gwasanaethau iechyd meddwl rhagorol, cefnogi atal salwch meddwl, hyfforddi seiciatryddion rhagorol, hyrwyddo ansawdd ac ymchwil, a gosod safonau.

Ni yw llais ein haelodau a'r proffesiwn, gan gynrychioli mwy na 600 o seiciatryddion ymgynghorol a dan hyfforddiant sy'n gweithio yng Nghymru. Rydym yn falch o'r partneriaethau effeithiol yr ydym wedi'u datblygu dros y blynyddoedd diwethaf gyda Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Senedd a rhanddeiliaid eraill ac edrychwn ymlaen at ddatblygu'r rhain ymhellach yn y blynyddoedd i ddod.

Bydd tymor nesaf y Senedd yn foment hollbwysig ar gyfer tirwedd iechyd meddwl yng Nghymru, gan adeiladu ar y Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles newydd a diwygiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth. Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i roi blaenoriaeth glir i iechyd meddwl yn eu maniffestos drwy ymrwymo i gymryd camau yn y tymor byr, canolig a hir.

Mae'r ddogfen hon yn nodi 4 maes ffocws a 15 o flaenoriaethau i gefnogi Llywodraeth nesaf Cymru i wneud gwelliannau realistig ac uchelgeisiol i ddarpariaeth gofal iechyd meddwl yng Nghymru.

# Maes Ffocws 1: Cleifion

Mae CBSeic Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

1. Ymrwymo i darged uchelgeisiol na ddylai unrhyw unigolyn orfod teithio y tu allan i Gymru i gael triniaeth iechyd meddwl arbenigol erbyn diwedd tymor nesaf y Senedd.

2. Sefydlu 'Cronfa Mynediad at Ofal' interim i gefnogi cleifion a'u teuluoedd gyda chostau teithio, bwyd a llety oddi cartref sy'n gysylltiedig â thriniaeth y tu allan i'r ardal a derbyniadau i unedau cleifion mewnol rhanbarthol.

3. Pennu safonau a chyhoeddi canllawiau i sicrhau nad oes unrhyw glaf iechyd meddwl yn gadael lleoliad claf mewnol mewn iechyd corfforol gwaeth na phan aethant i mewn.

4. Sicrhau bod cleifion iechyd meddwl Cymraeg eu hiaith yn gallu cael diagnosis a thriniaeth amserol a chywir yn eu dewis iaith drwy adfywio'r 'Cynnig Rhagweithiol' a gwreiddio sgiliau ieithyddol wrth gynllunio'r gweithlu.

5. Gweithio gydag awdurdodau lleol i wrthdroi'r dirywiad mewn canolfannau dydd anabledd dysgu sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer cymdeithasu, cefnogi datblygiad sgiliau a hybu annibyniaeth.

6. Sefydlu Bwrdd Goruchwylio i gynghori a rhoi sicrwydd mewn perthynas ag iechyd meddwl poblogaeth carchardai Cymru, gan gynnwys o dan y setliad cyfansoddiadol presennol ac wrth i swyddogaethau cyfiawnder gael eu datganoli dros amser.

# Maes Ffocws 2: Y Gweithlu

Mae CBSeic Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

7. Blaenoriaethu iechyd meddwl a lles seiciatryddion trwy wella ymwybyddiaeth o'r adnoddau sydd ar gael ac ymgorffori ymyriadau, megis cymorth gan gymheiriaid ac ymarfer myfyriol, mewn hyfforddiant meddygol a chontractau cyflogaeth.

8. Datblygu cynllun gweithredu pwrpasol ar gyfer seiciatreg yng Nghymru i fynd i'r afael â phrinderau yn y gweithlu, ateb y galw cynyddol a fwyfwy cymhleth am wasanaethau iechyd meddwl, a natur newidiol y proffesiwn seiciatrig yng ngoleuni triniaethau newydd a diwygiadau deddfwriaethol.

9. Gwneud y gorau o gymwyseddau proffesiynol y gweithlu drwy alluogi seiciatryddion i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol ar frig eu trwydded, yn enwedig mewn lleoliadau cleifion mewnol Haen 4.

# Maes Ffocws 3: Byrddau Iechyd

Mae CBSeic Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

10. Diwygio aelodaeth Byrddau Iechyd Lleol i gynnwys seiciatryddion fel swyddogion gweithredol â chyfrifoldeb am iechyd meddwl, a thrwy hynny sefydlu arweinyddiaeth, atebolrwydd a llywodraethu meddygol priodol.

11. Cynyddu ac ehangu gallu arbenigol i ateb y galw cynyddol a mynd i'r afael â rhestrau aros hir, gan dynnu ar arbenigedd proffesiynol y Coleg, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau niwroddatblygiadol.

12. Defnyddio data ar ddeilliannau iechyd a phrofiadau byw i lywio'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau a darparu cymorth yn decach, gan gynnwys mewn perthynas ag iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, dementia, anabledd deallusol, a grwpiau bregus eraill.

# Maes Ffocws 4: Digidol ac Ymchwil

Mae CBSeic Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

13. Buddsoddi mewn dull cenedlaethol arloesol o ddigideiddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl, a thrwy hynny gynyddu cynhyrchiant, gwella effeithlonrwydd a gwella profiad cleifion a chlinigwyr.

14. Ariannu a blaenoriaethu ymchwil iechyd meddwl a chasglu data yn deg er mwyn gwella dealltwriaeth, hwyluso arloesedd a meithrin gallu academaidd yn y gweithlu iechyd meddwl.

15. Comisiynu Proffil Salwch Meddwl Difrifol a Pharhaol ar gyfer Cymru i gefnogi dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o gynllunio a darparu gwasanaethau, wedi'i lywio gan brofiad bywyd, a'i ddiweddaru'n rheolaidd.

# Cysylltwch â Ni

Am ragor o wybodaeth neu gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â:

Dafydd Huw
Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus CBSeic Cymru
dafydd.huw@rcpsych.ac.uk

www.rcpsych.ac.uk/cymru